



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cartref Annwyl Fan

CARTREF ANNWYL FAN
Colonel Road
Betws
Rhydaman
SA18 2HW

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/02/2023

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atavnhwrchu ein deunydd yn fanwl gwir a nheidio â'i ddefnyddio mewn cwl-destun

Cartref Annwyl Fan

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal â Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Cartref Annwyl (Ammanford) Limited
Lleuedd cofrestredig	70
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	26/10/2021
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae anghenion iechyd a llesiant unigol y bobl yn cael eu cefnogi gan weithwyr gofal sy'n wybodus, wedi'u hyfforddi ac yn cael eu cefnogi'n dda. Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel yn byw yng Nghartref Annwyl Fan. Ar y cyfan, mae'r cofnodion gofal yn rhoi ymdeimlad da o'r unigolyn ac yn helpu staff i wneud hynny drwy gyflawni eu rolau.

Caiff y gwasanaeth ei arwain gan reolwr sy'n cael ei gefnogi'n dda gan ei reolwr llinell ac sy'n cael ei barchu gan y staff, y bobl sy'n byw yng Nghartref Annwyl Fan a'u perthnasau. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn defnyddio ei ymweliadau Rheoliad 73 ac ystod o offer archwilio ansawdd er mwyn sicrhau ei fod yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda.

Bu gwelliannau helaeth i'r amgylchedd a'r gerddi cymunedol ers yr arolygiad diwethaf. Mae'r amgylchedd mewn cyflwr da ac yn helpu i roi ymdeimlad o gymuned i'r bobl ac yn eu helpu i fyw mor annibynnol â phosibl.

Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag wynebu risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn poeni am yr unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn ymateb i sefyllfaoedd brys a phan mae pobl yn teimlo'n ofidus mewn modd amserol a charedig. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain. Ar y cyfan mae'r cofnodion gofal yn cynnwys gwybodaeth am ofynion a dewisiadau'r bobl. Mae tystiolaeth dda o'r gwasanaeth yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl.

Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwyllo a hyfforddiant da ar waith er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau, y wybodaeth a'r dulliau gofalu cywir. Mae'r staff yn parchu'r rheolwr sydd, yn ei dro, yn cael ei gefnogi'n dda gan uwch reolwyr a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl a chânt eu cefnogi gan bolisïau a gaiff eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd. Mae mesurau rheoli ac atal heintiau priodol ar waith ac mae'r staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau. Mae'r gwasanaeth yn lân ac mewn cyflwr da ac wedi'i deilwra i anghenion y bobl. Gall y gwelliannau i ardaloedd mewnol ac allanol y gwasanaeth wella llesiant pobl yn gadarnhaol.

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gofyn am farn unigolion sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ymweliadau Rheoliad 73. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely a dewis eu prydau bwyd ac maent yn cael eu cynnwys yn eu gofal pan mae hynny'n bosibl.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn cael gofal gan staff sy'n meddu ar ddealltwriaeth dda o'u hanghenion. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym am anghenion gofal penodol pobl a'u dewisiadau dyddiol, ac mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn bennaf yn eu cofnodion gofal. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl yn garedig ac yn ofalgar. Mae'r gweithwyr gofal a'r staff ategol yn mwynhau rhoi cymorth i'r unigolion a gweithio yn y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym; *"it can be tiring work, but it is very rewarding"*, *"we support people with complex needs, it's great to be able to make their day better"* ac *"I love having a chat with the residents, particularly if I am cleaning their bedroom. It is their room so I am respectful"*.

Gwelsom y staff gofal yn ymateb i ddigwyddiad mewn modd amserol, gofalgar a phroffesiynol. Mae'r bobl yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt ac yn canmol y staff. Dywedwyd wrthym; *"everyone is very friendly and helpful"*, *"all the staff are marvellous"* ac *"I am well cared for, I have no concerns"*.

Gall y bobl a/neu eu cynrychiolwyr godi pryder os bydd angen iddynt wneud hynny. Mae gweithdrefn gwyno glir wedi'i chynnwys yn y wybodaeth a roddwyd i'r bobl a / neu eu cynrychiolwyr wrth iddynt symud i mewn i'r gwasanaeth.

Mae gan gynlluniau gofal a chymorth fanylion da ac maent yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn. Fodd bynnag, dylid cofnodi'n well hanes personol yr unigolion, eu diddordebau a'r gweithgareddau y maent yn hoffi cymryd rhan ynddynt. Trafodwyd hyn gyda'r rheolwr yn ystod yr arolygiad. Lle y bo'n bosibl, mae'r bobl a / neu eu cynrychiolwyr yn llofnodi eu cynlluniau gofal er mwyn dangos eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses ofalu. Mae gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol yn ymwneud ag anghenion y bobl ac mae hyn wedi'i ddogfennu'n dda. Gwelsom yn ystod yr arolygiad fod rhai o'r staff yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg.

Mae'r gegin wedi cael sgôr hylendid bwyd o bum seren, gydag amrywiaeth o ddewisiadau dyddiol wedi'u cynnwys ar fwydlenni amrywiol. Dywedodd y bobl wrthym: *"the food is really good here"* ac *"I have no complaints about the food, there are always choices available if I want"*. Gwelsom fod y gwasanaeth yn darparu dewisiadau personol y bobl o ran prydau bwyd. Caiff bwydlenni eu diweddarau'n unol â'r tymor a thrwy ymgynghori â'r bobl. Mae'r amseroedd bwyd i'w gweld yn ddigwyddiadau cymdeithasol cadarnhaol iawn ac yn llawn hwyl. Caiff y prydau bwyd eu gweini'n dda i'r bobl sy'n bwyta yn yr ardaloedd bwyta neu yn eu hystafelloedd gwely. Mae'r bobl sydd angen cymorth i fwyta ac yfed yn cael amser wedi'i neilltuo, fel y gall staff roi'r sylw sydd ei angen arnynt i fwynhau eu prydau bwyd.

Yr Amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn lleihau'r risgiau i iechyd a diogelwch y bobl. Caiff y cyfarpar diffodd tân a'r cyfarpar symud a chodi a chario eu profi a'u cynnal a'u cadw o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae'r staff y siaradwyd â nhw yn glir ynglŷn â'r gwiriadau maent angen eu cyflawni cyn defnyddio'r cyfarpar symud a chodi. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn ac ar gael yn hawdd. Mae larymau argyfwng yn hawdd eu cyrraedd ac mae'r staff yn ymateb iddynt yn amserol pan fyddant yn seinio. Caiff problemau cynnal a chadw eu datrys yn brydlon ac mae rhaglen adnewyddu barhaus ar waith. Cwblheir archwiliadau Iechyd a Diogelwch o'r eiddo. Dylid ystyried peintio canllawiau yn y coridorau mewn lliw sy'n gyferbyniol i'r waliau. Bydd hyn yn cefnogi pobl ag anawsterau golwg yn well i'w galluogi i symud yn ddiogel o amgylch y gwasanaeth.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Mae mesurau diogel a priodol ar waith er mwyn i berthnasau a ffrindiau ymweld â'r gwasanaeth. Caiff y mesurau hyn eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel ac mae allanfeydd argyfwng yn daclus ac yn rhydd rhag peryglon. Mae gan y staff domestig y cyfarpar priodol i gwblhau eu tasgau'n ddiogel a chedwir y gwasanaeth yn lân. Mae gwiriadau cynnal a chadw ac archwiliadau cynhwysfawr ar waith.

Mae'r dodrefn a'r gosodiadau mewn cyflwr da ac yn cael eu newid pan fo angen. Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u personoli â dodrefn, lluniau, ffotograffau ac eitemau sy'n bwysig i'r unigolyn. Mae lolfeydd cymunedol ac ardaloedd bwyta ym mhob un o'r cymunedau i'r bobl gymdeithasu. Mae awyrgylch gartrefol ynddynt, gyda lluniau a phwyntiau o ddiddordeb. Defnyddir arwyddion dwyieithog yn y gwasanaeth i gyfeirio pobl sy'n cyfathrebu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ers yr arolygiad diwethaf mae gwaith adnewyddu helaeth wedi'i gwblhau ar ran o'r gwasanaeth. Mae'r gwelliannau'n darparu ystafelloedd gwely ensuite mawr a mynediad i ardd sydd wedi'i chynllunio'n dda gyda gwelyau plannu uchel, llwybrau, seddi ac ardal dec. Mae'n ardd yn gaeedig, sy'n golygu y gall pobl ddefnyddio'r ardal hon yn ddiogel er eu mwynhad personol eu hunain ac i gymdeithasu â ffrindiau a theulu.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y bobl ofal gan staff sy'n wybodus ac yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr a'r sefydliad. Dywedodd y staff wrthym *"I love coming to work – it's a great place to work. Everyone is friendly and helpful. The manager is lovely, can speak to her at any time"* a *"[manager] is really good has an open door policy"*. Mae'r staff gofal hefyd yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan y sefydliad, dywedasant wrthym *"It's great working for Caron Group. I think they are caring to the residents and recognise the stress associated with social care and working in a care home"* ac *"I enjoy working for Caron Group"*.

Mae'r staff i gyd yn cwblhau amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol i'r gwasanaeth, ac mae'r cofnodion yn cadarnhau hyn. Dywedodd y gweithwyr gofal a'r staff ategol wrthym am yr hyfforddiant y maent yn ei fynychu gan gynnwys *"I have had Dementia training – I think this is important to have a better understanding of people and how best to talk to them and what to consider when I am doing my job"* ac *"I am up to date with all my training. We have lots of training both online and face to face now"*. Mae'r staff hefyd yn dangos dealltwriaeth dda o'u rôl wrth ddiogelu unigolion ac arferion symud a chodi a chario diogel.

Mae'r cofnodion personél yn dangos eu bod yn cael sesiynau sefydlu manwl, sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniad blynyddol. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogaeth cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio, Mae'r rhain yn cynnwys geirdaon, gwiriadau hawl i weithio a gwiriadau Datgelu a Gwahardd (DBS). Gwelsom fod cofnodion y staff y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys y wybodaeth ofynnol.

Mae'r staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol ac maent yn gallu egluro eu cyfrifoldebau o ran lleihau lledaeniad COVID-19. Mae polisïau a gweithdrefnau sy'n gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ar waith i gefnogi'r staff.

Mae'r staff yn rhyngweithio â'r bobl ac yn eu cefnogi mewn modd gofalgar a pharchus, sy'n ychwanegu at awyrgylch groesawgar a hapus y gwasanaeth. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw *"I am very happy here, and to be honest I'm glad I moved in. The carers are great, they listen to you and take an interest in you"* a *"I am very happy here, it's a lovely home"*.

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'n unol â'i Ddatganiad o Ddiben. Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth ac mae wedi cwblhau ei ymweliadau Rheoliad 73 bob tri mis. Mae AGC wedi cael copïau o'i adroddiadau, sy'n dangos ei fod yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'i ymweliadau â'r gwasanaeth. Cadarnhaodd y staff a'r bobl hyn, gydag un aelod o'r staff yn dweud wrthym; *"[RI] asks how we are and speaks to the residents when he visits"*. Caiff amrywiaeth o adnoddau monitro ac archwiliadau eu defnyddio i gefnogi'r rheolwr a gwaith goruchwylio'r Unigolyn Cyfrifol. Caiff y camau sy'n deillio o'r archwiliadau eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rheolwr yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan ei reolwr llinell, yr Unigolyn Cyfrifol a'r sefydliad.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Dyddiad Cyhoeddi 23/03/2023